

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Sut y mae datblygiadau arloesol llwyddiannus yn dod i'r amlwg? Sut y mae dylunwyr, peirianwyr, entrepreneuriaid, rheolwyr a defnyddwyr yn creu cyfleoedd ac yn cynhyrchu syniadau ar gyfer arloesedd? Sut y caiff y syniadau hyn eu datblygu yn ddyluniadau a'u cyflwyno i'r farchnad neu at ddefnydd cyffredin? Beth yw effeithiau datblygiadau arloesol? Mae'r modiwl ar-lein hwn sy'n seiliedig ar brosiect yn archwilio'r cwestiynau hyn, ond mae ei ystyriaethau'n mynd y tu hwnt i arloesedd ar gyfer manteision masnachol yn unig. Mae hefyd yn ystyried sut y gellir cyfeirio arloesedd tuag at sicrhau dyfodol cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy drwy ddylunio cyfrifol. Mae'r modiwl hwn yn addas hyd yn oed os nad oes gan fyfyrwyr gefndir technegol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn dylunio neu bwnc sy'n ymwneud â dylunio neu dystiolaeth o brofiad gwaith sylweddol mewn dylunio a/neu arloesedd
- sgiliau meddwl wrth ddylunio gwych
- ymrwymiad i gymryd golwg gyffredinol o addysgu dylunio ac arloesedd a pharodrwydd i ymgysylltu â nifer o ddisgyblaethau
- y gallu i gynorthwyo myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd academiaidd i ddatblygu'r sgiliau meddwl yn feirniadol ac ysgrifennu'n academiaidd sydd eu hangen ar gyfer astudio ar lefel tri
- y gallu i gynorthwyo myfyrwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau dylunio ac arloesedd gyda holl agweddau ar y broses ddylunio, gan gynnwys cynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu sgiliau dylunio fel arlunio, modelu ffisegol 3D, ymchwilio, meddwl wrth ddylunio ac arloesedd, fel datblygu a chyflwyno cynigion ar gyfer cynhyrchion, prosesau neu systemau newydd
- ymrwymiad i gefnogi dysgu myfyrwyr ar effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd o fewn cyd-destun dylunio ac arloesedd.
- ymrwymiad i weithio'n greadigol o fewn amgylchedd addysgu ar-lein Y Brifysgol Agored gan ddefnyddio technolegau'r Brifysgol Agored sy'n rhan annatod o'r modiwl hwn, yn enwedig yr amgylchedd dosbarth rhithiwr a'r gofod stiwdio dylunio rhithiwr (OpenDesignStudio).

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu dylunio ar lefel israddedig
- profiad o ddefnyddio adnoddau ar-lein ar gyfer cyfathrebu neu addysgu
- profiad o gymryd rhan weithredol a sylweddol mewn prosiectau dylunio.

Gwybodaeth ychwanegol

- Mae gan Y Brifysgol Agored hanes hir o addysgu dylunio ac mae wedi cynhyrchu cyrsiau dylanwadol sy'n torri tir newydd yn y pwnc hwn. Mae'r modiwl hwn yn ffurfio elfen dylunio lefel tri y BA/BSc Dylunio ac Arloesedd a'r BSc Cyfrifiadura a Dylunio. Mae gan y radd Dylunio ac Arloesedd lwybrau ym meysydd y Celfyddydau, Busnes, Peirianeg a'r Amgylchedd a gall myfyrwyr hefyd ddilyn y modiwl hwn fel rhan o nifer o gymwysterau eraill. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr yn dod i'r modiwl gydag ystod eang o ddiddordebau a thueddfrydau ym maes dylunio ac mae eu nodau gyrfa yn amrywio'n fawr.
- Mae myfyrwyr yn ymgymryd â darn mawr o waith prosiect sy'n gwneud defnydd ymarferol o'r syniadau a'r dulliau gweithredu a ddysgwyd wrth astudio'r modiwl. Y prosiect fydd yr

elfen arholadwy o'r modiwl. Caiff tiwtoriaid a benodwyd i'r modiwl hwn eu recriwtio i farcio'r aseiniad diwedd modiwl, am dâl ychwanegol.

- Caiff prif ddeunyddiau addysgu'r modiwl eu cyflwyno drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir. Mae'r modiwl yn cynnwys chwe bloc sy'n archwilio gwahanol agweddau ar ddylunio ac arloesedd. Mae blociau 1 i 3 yn canolbwyntio ar sut y mae cyfleoedd a syniadau ar gyfer dyluniadau a datblygiadau arloesol yn cael eu creu. Mae blociau 4 i 6 yn ymwneud ag agweddau ymarferol ar ddylunio a chynllunio ar gyfer arloesedd ac maent yn cefnogi'r gwaith prosiect yn uniongyrchol, lle mae myfyrwyr yn datblygu cynnyrch, gwasanaeth neu ddatblygiadau arloesol lefel system.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

| | |
|--|-----|
| Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus: | 60 |
| Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr: | 5 |
| Dull cyflwyno aseiniadau: | 2 |
| Lefel y gofynion TGCh: | 2 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol: | 20 |
| Band cyflog: | 6 |
| Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu: | 5.5 |